# Gwaelod y Garth

Cylchlythyr Wythnosol / Weekly Newsletter

**19.12.25**




## ❤☆ Nadolig Llawen! ❤☆

Wedi wythnos prysur arall, fe gyrhaeddodd Gwyliau'r Nadolig! Hoffwn ddiolch o galon i'n staff ymroddgar a dawnus am drefnu profiadau mor gyfoethog i'n plant hyd at ddiwrnod ola'r tymor. 💚 Bu'r côr yn ymweld â ***Memory Cafe*** Pentyrch i berfformio o flaen henoed yr ardal. Profiad i'w gofio yn sicr. Diolch i Mrs Cole a Mrs Darch am hyfforddi. ❤ Wedi tymor o **wersi ffidil**, cafodd Blwyddyn 2 gyfle i berfformio cyngerdd i'w teuluoedd yr wythnos hon. Perfformiad arbennig iawn - da iawn chi, bob un! 💛 Bu'r plant ieuengaf wrth eu boddau yn gwylio ***Sioe Cadi'r Coblyn***. 💙 Panto AdLib daeth i ddiddanu plant Blwyddyn 3–6 tra'r aeth disgyblion 2E a'r Feithrin i'r **Sherman.** 💜 Mae ambell lun isod i chi fwynhau. Hwyl yr ŵyl yn sicr! 💚

Bu hwyl mawr heddiw wrth i'r GRhA ddarparu brecwast Nadolig iawn i bawb yn yr ysgol – gyda neb llai na Sion Corn ei hun yn gwmni! Roedd hi'n ffordd arbennig iawn i orffen Tymor y Nadolig gyda'r neuadd llawn bwrlwm a hwyl. Diolch o galon i'r GRhA am y rhodd arbennig hwn i bob un o'n plant ac i bawb a bu'n helpu. Profiad i'w gofio. 💚

Bu heddiw yn ddiwrnod emosiynol i nifer ohonom wrth i ni ffarwelio â'r amryddawn Mrs Cole. Mae dylanwad arbennig Mrs Cole bellach ar blant pob blwyddyn yn ein hysgol gan ei bod wedi dysgu pob blwyddyn yn y Feithrin. Gyda chalon drom yr ydym yn dweud hwyl fawr a phob lwc i chi ar eich pennod nesaf. Diolch, Mrs Cole, am eich rannu eich hud a gadael eich dylanwad ar yr ysgol, ar deuluoedd yr ysgol ac yn bwysicaf oll am y gwahaniaeth rydych wedi gwneud i bob un plentyn yn Ysgol Gwaelod y Garth. 💙💙💙

Hoffwn ddiolch i chi fel teuluoedd cymuned yr ysgol am bob cymorth dros y tymor a'r flwyddyn. Mae eich cefnogaeth yn gwneud gwahaniaeth mawr wrth i ni gefnogi holl blant yr ysgol. Diolch yn fawr iawn a Nadolig Llawen iawn i chi bob un! ☆☆

❤💚❤💚❤💚❤💚

After another busy week, the Christmas Holidays have arrived! Diolch to our dedicated and talented staff for organising fabulous experiences for our children to the very last day of term. 💚 The school choir visited ***Memory Cafe*** in Pentyrch to perform to some of our older community members – a memorable experience. Diolch to Mrs Cole and Mrs Darch for their work with the Choir. ❤ After this term's **violin lessons**, Year 2 performed a beautiful concert for their families on Wednesday. A very special performance – da iawn, bawb! 💛 The youngest children loved watching ***Sioe Cadi'r Coblyn*** – and what a great show! 💙 Panto AdLib came to entertain Year 3–6 pupils while pupils from 2E and the nursery went to the **Sherman.** 💜 There are a few pictures of the festivities below for you to enjoy. 💚

The fun continued today as the PTA prepared a special Christmas breakfast for everyone at school – with none other than Santa himself! What a delightful way to end the term! A big diolch to the PTA for this special gift to each of our children and to everyone who made it happen. An experience to remember. ❤

Today has been an emotional day for many of us as we said farewell to the multi-talented Mrs Cole. Mrs Cole's special influence is clear on every child at our school as she was nursery teacher to all pupils across year groups. It is with a heavy heart that we say *hwyl fawr* and *pob lwc* to you on your next chapter. Diolch, Mrs Cole, for sharing your magic and leaving your mark across the school and our families, and most importantly for the difference you have made to every child at Ysgol Gwaelod y Garth. 💙💙💙

I would like to thank you as the families of the school community for your support again this term and throughout the year. Your support makes a huge difference as we support all children at our special school. Diolch yn fawr iawn a Nadolig Llawen iawn i chi bob un! ☆☆

## Dyddiadau Pwysig
## *Important Dates*

**Llun / Monday 05.01.26**
Diwrnod HMS
*Inset Day*

**Mawrth / Tuesday 06.01.26**
Plant yn dychwelyd
Children return to school

**Gwener / Friday 23.01.26**
Gwasanaeth Dosbarth 3C
3C Class Assembly

**Gwener / Friday 13.02.26**
Gwasanaeth Dosbarth 2E
2E Class Assembly

**Gwener / Friday 13.03.26**
Gwasanaeth Dosbarth 2C
2C Class Assembly

---

Cofiwch am ein calendr byw ar dudalen cartref y wefan.
*Our live calendar is on our school website's homepage.*

Diolch Trish a Jo am ein Cinio Nadolig ac am ein cinio pob dydd!

Thank you Trish and Jo for our Christmas Dinner and for our dinner every day!




Panto AdLib!



Y Côr yn perfformio yn y Memory Café – The Choir in the Memory Café




Cyngerdd Ffidil Blwyddyn 2 – Year 2 Violin Concert



## Sioe Cadi'r Coblyn



### Amddiffyn a Diogelu Plant

Mae Amddiffyn a Diogelu Plant yn fater pwysig iawn. Mae dyletswydd ar bawb yn y gymuned i ddiogelu pob plentyn. Mae polisi diogelu'r ysgol ar wefan yr ysgol: Polisi Diogelu ac Plant

Pe bai gennych bryder am ddiogelwch plentyn, dylech rhannu'r pryder gyda Swyddogion Diogelu'r ysgol ar unwaith. **Swyddogion Diogelu** yr ysgol yw Mrs Helen Sharkey, Mrs Wendy Owen a Mrs Helen Davies. Gallwch ffonio'r ysgol ar unrhyw adeg i drafod diogelu.

### Child Protection and Safeguarding


Child Protection and Safeguarding is an important matter. All members of the community have a duty to protect all children. The school's safeguarding policy can be found on the school's website: Safeguarding and Child Protection

If you have a concern about a child's safety, you should share the concern with the school's Safeguarding Officers immediately. The school's Safeguarding Officers are Mrs Helen Sharkey, Mrs Wendy Owen and Mrs Helen Davies. You can call the school at any time to discuss safeguarding.

## ❤ Hwyl fawr, Mrs Cole! ❤







## Cymro / Cymraes yr Wythnos

## Welsh learners of the week







## Dysgwyr yr Wythnos

## Learners of the week

**SOUTH WALES WINDOWS & DOORS** EST. 1990

## <u>CRhA / *PTA*</u>

Diolch i'r GRhA am drefnu **Brecwast gyda Sion Corn** i bob un o'n plant.
Noddwyd y brecwast gan South Wales Windows & Doors trwy Rhys a Catrin Tollerfield.
Diolch!

Thank you to our PTA for organising **Breakfast with Santa** for all our children.
Thank you to Rhys and Catrin Tollerfield and South Wales Windows and Doors for your generous sponsorship to make this possible. Diolch!




Noson Bingo Night
Dydd Gwener / Friday
06.02.25




Mae Brechu yn achub bywydau
Vaccination saves lives

**Sicrhewch bod eich plant yn cael eu brechu rhag y ffliw** i'w helpu i gadw'n iach dros y gaeaf.

GIG Cymru NHS Wales | Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales




Mae Brechu yn achub bywydau
Vaccination saves lives

**Make sure your child gets vaccinated against flu** to help keep them healthy this winter.

GIG Cymru NHS Wales | Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales

# Childhood Flu Vaccination

Parents whose children missed their flu vaccine in school are being urged to take up the offer, as flu cases in Wales continue to rise.

More than 800,000 people in Wales have already been vaccinated, but flu activity has increased recently, and more cases are expected in the run up to Christmas.

Confirmed cases in children under five are currently very high.

How you can help:

·Use your social media channels to spread the word: I've attached social media assets and suggested messaging, which give parents the information they need.

- Share our latest social media post: please reshare our latest post on Facebook: Eng | Cym

Why it matters:

- Flu can be serious for children, but the nasal spray vaccine reduces the risk of serious illness. Even if children catch flu, the nasal spray vaccine means symptoms are likely to be milder and shorter.
- The flu nasal spray vaccine is safe, painless and helped protect over 230,000 school-aged children in Wales last year.
- The flu nasal spray vaccine helps stop the illness spreading to siblings, grandparents and relatives who are more at risk of serious illness.
- Most children are protected within 14 days of having the flu nasal spray.
- One quick nasal spray helps keep children healthy – reducing the risk of illnesses that could disrupt their learning, play and your family life.
- Flu also adds extra pressure to the NHS each winter, increasing demand for beds and urgent care services - vaccination helps ease that strain.

For more info:

You can find details on the Public Health Wales website about how to get a free flu vaccine for your child if they missed it at school or if the consent form wasn't completed in time.

Thank you for your support.

# Brechiad Ffliw Plentyndod

Mae rhieni y collodd eu plant y brechlyn ffliw yn yr ysgol yn cael eu hannog i fanteisio ar y cynnig, wrth i achosion o ffliw yng Nghymru barhau ar gynnydd.

Dros 800,000 o bobl yng Nghymru sydd wedi cael eu brechu hyd yma, ond mae achosion o ffliw wedi cynyddu'n ddiweddar, a disgwylir mwy o achosion yn y cyfnod cyn y Nadolig.

Mae nifer uchel iawn o achosion sydd wedi'u cadarnhau ymhlith plant dan bump oed ar hyn o bryd.

Sut y gallwch chi helpu:

·Defnyddiwch eich sianeli cyfryngau cymdeithasol i ledaenu'r gair: Dw i wedi atodi asedau cyfryngau cymdeithasol a negeseuon awgrymedig, sy'n rhoi'r wybodaeth y mae rhieni ei hangen.

· Rhannwch ein postiad cyfryngau cymdeithasol diweddaraf: ail-rannwch ein postiad diweddaraf ar Facebook: Cym | Eng

Pam mae'n bwysig:

- Gall y ffliw fod yn ddifrifol i blant, ond mae'r brechlyn chwistrell trwyn yn lleihau'r risg o salwch difrifol. Hyd yn oed os bydd plant yn dal ffliw, mae'r brechlyn chwistrell trwyn yn golygu y bydd y symptomau'n debygol o fod yn ysgafnach ac yn fyrrach.
- Mae'r brechlyn ffliw chwistrell trwyn yn ddiogel, yn ddi-boen, ac wedi helpu i amddiffyn dros 230,000 o blant oedran ysgol yng Nghymru y llynedd.
- Mae'r brechlyn ffliw chwistrell trwyn yn helpu i atal y salwch rhag lledaenu i frodyr a chwiorydd, neiniau a theidiau a pherthnasau sy'n wynebu mwy o risg o salwch difrifol.
- Bydd y rhan fwyaf o blant wedi'u hamddiffyn o fewn 14 diwrnod o gael y chwistrell trwyn ffliw.
- Mae un chwistrell trwyn cyflym yn helpu i gadw plant yn iach – gan leihau'r risg o afiechydon a allai amharu ar eu dysgu, eu chwarae a'ch bywyd teuluol.
- Mae'r ffliw hefyd yn rhoi pwysau ychwanegol ar y GIG bob gaeaf, gan gynyddu'r galw am welyau a gwasanaethau gofal brys - mae brechu'n helpu i leddfu'r straen hwnnw.

Am fwy o wybodaeth:

Ar wefan Iechyd Cyhoeddus Cymru gallwch weld manylion sut i gael y brechlyn ffliw am ddim i'ch plentyn os ydynt wedi'i golli yn yr ysgol neu os na chafodd y ffurflen ganiatâd ei chwblhau mewn pryd.

Diolch am eich cefnogaeth.

# GWASANAETH CYNGOR I DEULUOEDD
# DE CYMRU

Mae Cyngor ar Bopeth Caerdydd a Bro Morgannwg yn darparu cyngor cyfrinachol a diduedd am ddim, ar ystod o feysydd gan gynnwys dyled, budd-daliadau, thai, cyflogaeth a teulu.

**Os oes angen help arnoch chi neu'ch teulu, sganiwch y cod QR a chwblhewch y ffurflen atgyfeirio a bydd un o'n tîm mewn cysylltiad.**

**CYSYLLTWCH Â NI**

**02921 111272**
**moondance@cacv.org.uk**
Dydd Llun - Dydd Gwener
9yb - 5yp

The Moondance Foundation | cyngor ar bopeth | citizens advice | Caerdydd a Bro Morgannwg Cardiff & Vale

# SCHOOLS FAMILY ADVICE
# SOUTH WALES


Citizens Advice Cardiff & Vale provide free, confidential and impartial advice on a range of areas including debt, benefits, housing, employment and family.

**If you or your family need help, please scan the QR code and complete the referral form and one of our team will be in touch.**

**CONTACT US**

**02921 111272**
**moondance@cacv.org.uk**
Monday - Friday
9am - 5pm

The Moondance Foundation | cyngor ar bopeth | citizens advice | Caerdydd a Bro Morgannwg Cardiff & Vale


Chi yw hwn?
Ymunwch â chwrs
Codi Hyder
AM DDIM!
dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru
Caerdydd / Cardiff
-Sesiynau un i un arlein gyda thiwtor profiadol
a/neu
-Sesiwn wyneb yn wyneb gyda phobl yn yr un cwch
Dydd Iau, 17.30 - 19.30
15/01/26 - 26/03/26,
Prifysgol Caerdydd
-Gweithgareddau i'ch helpu mwynhau defnyddio eich Cymraeg.
Rydyn ni'n hoffi siarad Cymraeg gyda'n ffrindiau yn yr ysgol.
Ni ddim yn siarad Cymraeg lot achos our mates don't.
We wish we'd kept our Welsh up because we've lost our confidence now.
Ebostiwch Rosie Berry: berryra@cardiff.ac.uk

diogelwch dŵr Cymru
water safety Wales

# Siaradwch â'ch plant am ddiogelwch dŵr!



**Gall llifogydd a rhew yn y gaeaf fod yn beryglus i blant. Cadwch eich plant yn ddiogel a siaradwch â nhw am ddiogelwch dŵr.**

## CADWCH DRAW O'R YMYLON

- Cadwch draw o lannau llithrig.
- Peidiwch byth â cherdded neu chwarae ar rew.
- Cadwch at fannau sydd wedi'u goleuo'n dda a chynlluniwch eich teithiau cerdded yn ystod golau dydd.
- Osgowch gerdded neu yrru drwy ddŵr llifogydd.

## OS BYDDWCH CHI'N SYRTHIO DRWY'R RHEW

- Peidiwch â chynhyrfu a galwch am help.
- Arnofiwch ar eich cefn nes eich bod yn teimlo'n dawel, yna ceisiwch ddringo allan.
- Os na allwch chi ddringo allan, daliwch i arnofio a chadwch eich pen yn glir o'r dŵr.

## CADWCH BLANT AC ANIFEILIAID ANWES YN AGOS

- Dysgwch blant i gadw draw o'r rhew ac osgoi llifogydd.
- Cadwch gŵn ar dennyn ger rhew a glannau llithrig.

## OS GWELWCH CHI RYWUN MEWN TRAFFERTH – FFONIWCH 999

- Peidiwch â mynd i mewn i ddŵr oer, rhew neu ddŵr llifogydd i achub rhywun.
- Helpwch o bellter diogel. Defnyddiwch offer achub, rhywbeth sy'n arnofio neu rywbeth a allai helpu fel rhaff neu gangen coeden.

**MWYNHEWCH Y GAEAF YN DDIOGEL!**

## DIWEDDARIADAU DIOGELWCH LLIFOGYDD

Cofrestrwch i gael rhybuddion llifogydd ar wefan Cyfoeth Naturiol Cymru.

naturalresources.wales/flooding/sign-up-to-receive-flood-warnings

**Byddwch yn ymwybodol o'r tywydd a rhybuddion llifogydd.**

diogelwch dŵr Cymru
water safety Wales



# Talk to your children about Water Safety!

**Flooding and ice in winter can be dangerous for children. Keep your children safe and talk to them about water safety.**

### STAY AWAY FROM THE EDGE

- Keep back from slippery banks.
- Never walk or play on ice.
- Stick to well-lit areas and plan your walks during daylight.
- Avoid walking or driving through floodwater.

### KEEP CHILDREN AND PETS CLOSE

- Teach children to stay off the ice and avoid floodwater.
- Keep dogs on a lead near ice and slippery banks.

### IF YOU FALL THROUGH THE ICE

- Keep calm and call for help.
- Float on your back until you feel calm, then try to climb out.
- If you cannot climb out, continue to float and keep your head clear of the water.

### IF YOU SEE SOMEONE IN TROUBLE – CALL 999

- Do not enter cold water, ice, or flood water to rescue someone.
- Assist from a safe distance. Use rescue equipment, something that floats or something that could help such as a rope or tree branch.

**ENJOY THE WINTER SAFELY!**

### FLOOD SAFETY UPDATES

Sign up for flood warnings on the Natural Resources Wales website

naturalresources.wales/flooding/sign-up-to-receive-flood-warnings

**Stay informed about weather conditions and flood warnings.**


Nadolig Llawen

